Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Blaenau Gwent

# Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

# Adroddiad Gweithredu 2022-25

Catrin Evans Consultancy



## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae wedi'i ddogfennu'n eang ein bod mewn argyfwng natur, gyda'r adroddiad Sefyllfa Natur: Cymru yn nodi bod Cymru yn un o'r gwledydd ar y blaned lle mae byd natur wedi'i ddisbyddu fwyaf, gan ddarparu tystiolaeth bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru dan fygythiad difodiant.

Mae angen gweithredu ar frys i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac mae llawer o fesurau ar waith i gefnogi'r gweithredu hwn. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi sefydlu dyletswydd statudol ar bob corff cyhoeddus i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, a elwir yn gyffredin yn ddyletswydd adran 6.

Fel sy'n ofynnol gan y ddyletswydd adran 6, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gynhyrchu cynllun sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon ac yn adrodd ar gynnydd bob tair blynedd.

Mae **Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau** y Cyngor yn nodi'r dull a'r camau y byddai'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswydd adran 6 rhwng 2022 a 2025. Cynhaliwyd adolygiad ar weithredu'r cynllun, ac mae canfyddiadau'r adolygiad hwnnw wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Bydd Cynllun wedi'i ddiweddaru yn cael ei gynhyrchu bellach, wedi'i lywio gan ganfyddiadau'r adolygiad hwn, ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf rhwng 2025 a 2028.



## CONTENTS


1. Rhagymadrodd ........................................................ **Error! Bookmark not defined.**
   1.1 Y Ddyletswydd Adran 6 ........................................................ 3
   1.2 Gofynion Adrodd ........................................................ 4
   1.3 Llywodraethiant a Chymorth Cyflawni ........................................................ 4
   1.4 Y Broses Adrodd ac Adolygu ........................................................ 4
   1.5 Cysylltiadau â Pholisi ........................................................ 5
2. Cynlluniau Gweithredu Meysydd Gwasanaeth ........................................................ 7
   2.1 Llywodraethiant a Phartneriaethau ........................................................ 7
   2.2 Adnoddau ........................................................ 8
   2.3 Gwasanaethau Masnachol a Datblygu Sefydliadol ........................................................ 8
   2.4 Gwasanaethau Cymdeithasol ........................................................ 10
   2.5 Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ........................................................ 12
   2.6 Addysg ........................................................ 18
3. Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........................................................ 21
4. Argymhellion a'r Camau Nesaf ........................................................ 25

## 1. RHAGYMADRODD

### 1.1 Y DDYLETSWYDD ADRAN 6

Mae gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd statudol i amddiffyn a gwella **bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau**,[11] a elwir yn gyffredin yn ddyletswydd adran 6. Wedi'i chyflwyno gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio

*cynnal a gwella bioamrywiaeth, cyn belled ag y bo'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol, a thrwy wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.*

Fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, paratôdd a chyhoeddodd Cyngor Blaenau Gwent (y Cyngor) gynllun yn nodi sut y byddai'n cyflawni'r ddyletswydd hon. Mae **Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau** y Cyngor (y Cynllun) yn nodi'r dull a'r camau gweithredu i'w cymryd gan y Cyngor i fodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) rhwng 2022 a 2025.

Bwriedir i'r Cynllun, wrth gael ei weithredu, gyflawni'r nodau canlynol, sydd, ynddynt eu hunain, yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol a llesiant y Cyngor:

1. Lleihau'r defnydd cyffredinol o adnoddau; ailddefnyddio lle bo modd ac ailgylchu popeth y gellir ei ailgylchu.
2. Cynyddu dealltwriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau ymhlith staff y Cyngor a chynghorwyr drwy sianeli priodol, gan gynnwys Hyrwyddwyr Amgylchedd mewn meysydd gwasanaeth a rôl yr Hyrwyddwr Lliniaru Newid Hinsawdd ymhlith y cynghorwyr.
3. Ymgorffori yr her o integreiddio'r Ddeddf Teithio Llesol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cynllunio a Deddf yr Amgylchedd i annog cynaliadwyedd yn y ffyrdd rydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.
4. Hyrwyddo defnydd cyfrifol o adnoddau naturiol ym Mlaenau Gwent drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill i ysgogi gweithredu ac i newid ymddygiad.
5. Cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, yn enwedig o ran rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth.
6. Cefnogi Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen.

---

[1] Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau – Gallu ecosystem i wrthsefyll pwysau neu ofynion wrth barhau i weithredu fel ecosystem. Yn gyffredinol, mae amrywiaeth, maint, cyflwr a chysylltedd yn dylanwadu arno.

## 1.2 GOFYNION ADRODD

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd yn manylu ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, comisiynodd y Cyngor Catrin Evans Consultancy i gynnal adolygiad annibynnol o ddarpariaeth yn erbyn y Cynllun, a'r ddyletswydd adran 6, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad hwnnw, ochr yn ochr ag argymhellion cychwynnol ar gyfer blaengynllun diwygiedig.

## 1.3 LLYWODRAETHIANT A CHYMORTH CYFLAWNI

Mae cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 yn berthnasol i bob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr ac uwch-reolwyr, swyddogion unigol, ac aelodau etholedig.

Mae'r Tîm Amgylchedd Naturiol wedi'i benodi i arwain ar adrodd ac i ddarparu canllawiau a chyngor i gefnogi gwaith i weithredu'r ddyletswydd adran 6 ar draws y Cyngor a'i swyddogaethau niferus. Mae ecolegydd y Cyngor yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu'r cyngor a'r canllawiau sy'n sail i sut mae'r Cyngor yn cyflawni'r Cynllun, gyda Rheolwr y Tîm Amgylchedd Naturiol yn gyfrifol am waith rheoli.

## 1.4 REPORTING AND REVIEW PROCESS

Un o themâu allweddol y ddyletswydd adran 6 yw'r angen i ymwreiddio bioamrywiaeth mewn ffyrdd o weithio ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus. O ganlyniad, mae Cynllun y Cyngor wedi'i strwythuro o amgylch meysydd gwasanaeth unigol, ac mae pob un wedi cytuno i osod amcanion fel rhan o gynlluniau gweithredu'r meysydd gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r amcanion hyn wedi'u hymwreiddio mewn mecanweithiau adrodd y cynllun corfforaethol, gan ei gwneud yn ofynnol i swyddogion adrodd ar gynnydd yn erbyn eu hamcanion eu hunain bob chwarter fel rhan o weithdrefnau adrodd cynlluniau busnes.

Er mwyn cefnogi'r broses hon, mae Hyrwyddwyr Amgylchedd wedi'u henwebu ar gyfer pob maes gwasanaeth gyda chyfrifoldeb am adrodd ar gynlluniau busnes; maent hefyd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Tîm Amgylchedd Naturiol.

Cynhaliwyd adolygiad o weithrediad y Cynllun trwy wneud y canlynol:

- Casglu ac adolygu pob adroddiad cynllun busnes
- Adolygu adroddiadau cynnydd blynyddol (ar gyfer 2022/23 a 2023/24) a deunydd ategol arall a ddarparwyd gan y Tîm Amgylchedd Naturiol
- Adolygu dogfennau corfforaethol a thystiolaeth ategol a ddarparwyd gan Hyrwyddwyr Amgylchedd neu sydd ar gael ar-lein

- Cynnal cyfweliadau a thrafodaethau e-bost gyda Hyrwyddwyr Amgylchedd, swyddogion allweddol ac aelodau o’r Tîm Amgylchedd Naturiol

## 1.5 CYSYLLTIADAU Â PHOLISI

Mae’r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at ystod o bolisïau, strategaethau ac amcanion, gan chwarae rhan hanfodol wrth ategu iechyd, llesiant, bwyd a’r economi. Er bod y cysylltiadau niferus yn rhy helaeth i’w manylu yma, mae detholiad o’r rhai mwyaf perthnasol wedi’u nodi isod.

### CYNLLUNIAU LLESIANT A CHORFFORAETHOL

Mae rôl bioamrywiaeth wrth gynnal cymdeithas wedi’i chydnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, sy’n rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith ac yn nodi saith nod llesiant y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i’w cyflawni. Mae nod Cymru gydnerth yn fwyaf cysylltiedig ag amgylchedd naturiol iach a bioamrywiol; fodd bynnag, mae bioamrywiaeth yn cefnogi pob un o’r nodau llesiant trwy’r manteision amlswyddogaethol y mae’n eu darparu.

Mae Blaenau Gwent yn rhan o rhanbarth Gwent ac mae felly’n cyfrannu at Gynllun Llesiant Gwent, sy’n gosod uchelgais i ‘greu Gwent sy’n fwy ymwybodol o’r hinsawdd lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi, gan sicrhau ein llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol’. Cyflawnir darpariaeth leol drwy Bartneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent, sydd wedi nodi hinsawdd a natur fel blaenoriaeth leol.

Mae cynllun corfforaethol y Cyngor yn nodi blaenoriaeth gorfforaethol i ‘ymateb i’r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig’. Mae’r cynlluniau llesiant a chorfforaethol ill dau yn cydnabod brys yr argyfwng natur ac wedi ymgorffori adferiad natur fel elfennau craidd. Yn y pen draw, bydd cyflawni yn erbyn y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau yn cefnogi gwaith i gyflawni’r blaenoriaethau corfforaethol hyn.

### CYNLLUN DATGARBONEIDDIO

Mae’r amgylchedd naturiol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gweithredu ar newid hinsawdd, gyda llystyfiant, pridd a dŵr i gyd yn gallu storio, neu atafaelu, symiau enfawr o garbon. Yn hollbwysig, mae arferion rheoli gwael, neu ddinistrio cynefinoedd, yn arwain at ryddhau carbon i’r atmosffer. Ar yr un pryd, mae newid hinsawdd yn un o’r bygythiadau

allweddol sy'n wynebu bioamrywiaeth, gan dynnu sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull cydweithredol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

## POLISÏAU BIOAMRYWIAETH CENEDLAETHOL A DATGANIADAU ARDAL

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn darparu fframwaith polisi gan Lywodraeth Cymru, gan nodi'r heriau a chyfleoedd allweddol yng Nghymru mewn perthynas â'n hamgylchedd naturiol. Caiff y rhain eu trosi'n flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd rhanbarthol trwy gynhyrchu'r Datganiadau Ardal. Mae Blaenau Gwent yn dod o fewn cwmpas Datganiad Ardal y De-ddwyrain, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio ar y cyd i gysylltu tirweddau, ymgysylltu pobl yn yr amgylchedd naturiol, a rhoi mesurau addasu a lliniaru ar waith mewn perthynas â newid hinsawdd.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, i'w gyflawni drwy weithredu amcanion y cynllun:

Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn argymell bod adrodd ar gamau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd adran 6 yn seiliedig ar yr amcanion yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. O ganlyniad, mae manylion ynghylch sut mae Cynllun Blaenau Gwent yn cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn wedi'u nodi yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

# 2. CYNLLUNIAU GWEITHREDU MEYSYDD GWASANAETH

## 2.1 LLYWODRAETHIANT A PHARTNERIAETHAU

### AMCAN 1: CEFNOGI INTEGREIDDIO AMCANION Y BLAENGYNLLUN YNG NGHYNLLUNIAU BUSNES CORFFORAETHOL Y CYNGOR A DARPARU ADRODDIADAU CHWARTEROL

Mae amcanion y Cynllun wedi'u hymgorffori i raddau helaeth ym mecanweithiau adrodd cynllun corfforaethol y Cyngor, sy'n bwydo i'r amserlen adrodd chwarterol a gynhelir gan yr adrannau priodol. Yr eithriadau i hyn yw maes adnoddau, lle nad yw amcanion wedi'u gosod, ac elfennau o'r Gwasanaethau Masnachol.

Mae adolygiad o adroddiadau'r cynlluniau busnes yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai bylchau wrth adrodd yn erbyn yr amcanion bioamrywiaeth. Mae adolygiad o adrodd ar gynlluniau busnes ar y gweill, ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu cerdyn sgôr cytbwys, a fydd yn darparu cynrychiolaeth fwy gweledol o gynnydd yn erbyn camau gweithredu.

### AMCAN 2: DARPARU CYSYLLTIAD Â CHYNLLUN LLESIANT BLAENAU GWENT A'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cynhaliodd Partneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ystod 2023/24 i nodi blaenoriaethau lleol, gan ymgysylltu â thrigolion lleol a sefydliadau cadwraeth natur. Y pedair blaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg oedd Teithio a Thrafnidiaeth, Bwyd, Lleihau Anghydraddoldebau, a Hinsawdd a Natur. Roedd thema Hinsawdd a Natur yn cynnwys:

- Mynediad at dir a mannau gwyrdd lleol
- Colli natur a bioamrywiaeth, angen codi ymwybyddiaeth, a gwneud y gorau o'n hamgylchedd naturiol
- Cyfranogiad lleol mewn rhaglenni hinsawdd rhanbarthol

Mae gwaith partneriaeth wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r cysylltiadau rhwng y bartneriaeth llesiant lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol, gyda chynlluniau ar y gweill i gynyddu cydweithio mewn perthynas â bioamrywiaeth. Mae Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen wedi trefnu bod yn rhan o gyfarfodydd Partneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent yn 2025, i rannu gwybodaeth am y Bartneriaeth Natur Leol a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur ac i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

### AMCAN 3: DARPARU CYSYLLTIAD Â CHYNLLUN DATGARBONEIDDIO BLAENAU GWENT

Mae'r cynllun datgarboneiddio yn dangos ymrwymiad i integreiddio cadwraeth bioamrywiaeth o fewn y dull datgarboneiddio ehangach. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli a nodi tir at ddibenion atafaelu ac yn cydnabod y dylai camau datgarboneiddio

amddiffyn a gwella bioamrywiaeth, gan gyfeirio at y Bartneriaeth Natur Leol a'i chynllun gweithredu (y Cynllun Gweithredu Adfer Natur).

Gwnaed ymdrechion i alinio camau gweithredu a mecanweithiau cyflawni ac adrodd, a bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal i alinio camau gweithredu yn y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau diwygiedig. Sefydlwyd grŵp hinsawdd i ddarparu trosolwg strategol a chefnogi cyflawni. Er bod ffocws y grŵp ar ddatgarboneiddio, mae mentrau ar sail natur wedi'u cynnwys fel rhan o drafodaethau cyfarfodydd lle bo angen.

### GWAITH YCHWANEGOL A GYFLAWNWYD

Darperir cymorth i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd adran 6 lle bo angen, gan helpu i hwyluso presenoldeb ecolegydd y Cyngor yng nghyfarfodydd yr uwch-reolwyr i amlygu rôl y Cyngor wrth gyflawni gofynion y ddyletswydd adran 6.

## 2.2 ADNODDAU

### AMCANION

Nid oes amcanion wedi'u gosod eto ar gyfer adnoddau, er bod cyfleoedd a nodwyd, ac a amlygwyd yng Nghynllun 2022 i 2025, yn nodi potensial i archwilio achredu systemau rheoli amgylcheddol.

### ARGYMHELLION AR GYFER Y CYNLLUN DIWYGIEDIG

Mae'r crynodeb o'r swyddogaethau a gwmpesir gan y maes gwasanaeth hwn yn awgrymu bod cyfleoedd ychwanegol i gefnogi gweithredu bioamrywiaeth yn bodoli, yn ogystal â'r hyn a amlygwyd eisoes, mewn perthynas â gwasanaethau ariannol a rheoli risg. Argymhellir ymgysylltu â'r maes gwasanaeth hwn yn ystod cyfnod gweithredu dilynol y Cynllun, er mwyn archwilio unrhyw gyfleoedd posibl.

## 2.3 GWASANAETHAU MASNACHOL A DATBLYGU SEFYDLIADOL

### AMCAN 1: DATBLYGU ITRENT YMHELLACH: SYMLEIDDIO PROSESAU A LLEIHAU PAPUR YMHELLACH, H.Y. FFURFLENNI RECRIWTIO

Lansiwyd system recriwtio iTrent ym mis Mai 2025 (ar gyfer staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion), gan arwain at awtomeiddio prosesau cychwyn a chyn-gyflogaeth, gan osgoi'r angen am ddogfennau papur. Mae'r system bost wedi'i hawtomeiddio, sy'n golygu nad oes angen argraffu post mwyach, ac mae papur yn cael ei dynnu'n systematig o gyfarfodydd, gyda phapurau ac adroddiadau pwyllgor yn cael eu cyrchu'n ddigidol. O

ganlyniad i newidiadau a wnaed eisoes, adroddwyd bod angen llai o beiriannau llungopïo yn yr adeiladau.

Mae cynlluniau ar gyfer ychwanegu ymhellach at system iTrent yn cynnwys ffurflenni cynhaliaeth a threuliau'r gyflogres, a fydd yn lleihau'r defnydd o bapur ymhellach.

## AMCAN 2: MODEL GWEITHREDU GWEITHIO YSTWYTH NEWYDD: LLEIHAU'R DEFNYDD O BAPUR YMHELLACH, LLAI O GYMUDO A LLAI O DEITHIO BUSNES YN GYFFREDINOL, CAU ADEILADAU'R CYNGOR

Mae staff wedi'u dynodi'n weithwyr cartref, ystwyth neu gymunedol, gyda phum adeilad wedi'u nodi i ddechrau fel canolfannau gweithio ystwyth. O ganlyniad i weithio gartref, mae llai o angen am swyddfeydd, ac mae dau adeilad wedi'u cau a phedwar adeilad bellach wedi'u nodi'n ganolfannau gweithio ystwyth. Ar yr un pryd, bu gostyngiad sylweddol mewn milltiroedd sy'n gysylltiedig â gwaith a chymudo i'r gwaith.

Noder bod adolygiad o'r Polisi Gweithio Ystwyth ar y gweill, gan edrych i gynyddu cyfleoedd i dimau weithio gyda'i gilydd yn gorfforol o bryd i'w gilydd.

## AMCAN 3: IECHYD GALWEDIGAETHOL: GWASANAETH CWBL O BELL A DIGIDOLEIDDIO PELLACH O'R FFEILIAU SY'N WEDDILL

Mae iechyd galwedigaethol bellach yn wasanaeth cwbl o bell gyda ffeiliau i gyd yn cael eu cadw'n electronig. Mae'r rhan fwyaf o apwyntiadau dros y ffôn gyda chanran fach yn gofyn am apwyntiadau wyneb yn wyneb.health is now a fully remote service with filing all saved electronically. Most appointments are telephone based with a small percentage requiring face to face appointments.

## AMCAN 4: AGENDA DDATGARBONEIDDIO: ADOLYGIAD O'R CYNLLUN MILLTIROEDD A DEFNYDDWYR CEIR. ANNOG STAFF I NEWID I GERBYDAU TRYDAN

Mae adolygiad yn cael ei gynnal o'r cynllun milltiroedd a defnyddwyr ceir; fodd bynnag, mae cynllunio datgarboneiddio ac effaith milltiroedd busnes wedi'u haddasu o ganlyniad i gapasiti a blaenoriaethu.

Cyflwynwyd cynllun beicio i'r gwaith yn haf 2023 a lansiwyd rhaglen buddion i weithwyr newydd ym mis Tachwedd 2024, sy'n cynnwys beicio i'r gwaith a chynllun prydlesu ceir Tusker, sydd i gyd ar gael drwy gydol y flwyddyn.

## GWAITH YCHWANEGOL A GYFLAWNWYD

Cymeradwywyd strategaeth caffael cymdeithasol gyfrifol ddiwygiedig ar gyfer 2023 i 2028 gan y cabinet yn 2023. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn cynnwys amcan i hyrwyddo caffael cymdeithasol gyfrifol a chyfrannu at nod y Cyngor o fod yn sero net erbyn 2030.

Mae polisi gwirfoddoli ar waith, sy’n darparu un diwrnod y flwyddyn i wirfoddoli yn y gymuned leol, gan gynnwys ar brosiectau sy’n seiliedig ar yr amgylchedd.

## 2.4 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

### AMCAN 1: Y TÎM AMGYLCHEDD NATURIOL (ARWEINWYR DEDDF YR AMGYLCHEDD) I FYNYCHU CYFARFOD RHEOLWYR GWASANAETHAU DARPARU YN FLYNYDDOL

Cynhelir cyfarfodydd rheoli chwarterol gan y Gwasanaethau Oedolion, gyda phresenoldeb achlysurol gan y Tîm Amgylchedd Naturiol. Mae cyswllt rheolaidd rhwng y timau y tu allan i hyn, wrth i faterion/ymholiadau godi.

### AMCAN 2: ANNOG RHEOLAETH SY’N GYFEILLGAR I NATUR YM MANNAU ALLANOL EIN GWASANAETHAU DARPARU

Mae cynlluniau bioamrywiaeth wedi’u datblygu ar gyfer 11 o hybiau Dechrau’n Deg, gydag ymweliadau ac asesiadau wedi’u cynnal yn ystod 2024. Mae gwelliannau sy’n seiliedig ar natur eisoes wedi’u cyflawni mewn nifer o safleoedd (gweler y lluniau isod), gyda gwelliannau pellach wedi’u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Adroddwyd am ymgysylltiad cadarnhaol â’r mannau awyr agored newydd, gyda phlant a staff fel ei gilydd yn mwynhau profi byd natur fel rhan o chwarae a dysgu.


Mae mewnbwn ecolegol wedi’i ddarparu wrth nodi prosiectau amgylcheddol posibl yng


Gwelliannau bioamrywiaeth Dechrau’n Deg

nghanolfannau dydd i oedolion Lake View a Bert Denning. Mae blodau, llwyni a llysiau wedi’u tyfu mewn gwelyau uchel. Mae cartrefi pryfed a blychau adar, ystlumod a draenogod wedi’u gosod yn Lake View.

Mae dyluniadau wedi’u datblygu ar gyfer Tŷ Augusta, canolfan seibiant anabledd dysgu Blaenau Gwent, gyda chynlluniau i’w gweithredu yn ystod 2025. Gyda chymorth gan British Gas (cynllun Nyth), darparwyd gwelliannau i’r gerddi a’r mannau eistedd yng nghartref gofal preswyl Cwrt Mytton.

## AMCAN 3: CYSYLLTU EIN DINASYDDION A’N STAFF Â’R AMGYLCHEDD TRWY EU CYNNWYS MEWN PROSIECTAU AMGYLCHEDDOL O FEWN EIN GWASANAETHAU DARPARU




Mae Gwasanaethau Plant wedi ymgorffori’r amgylchedd naturiol mewn gweithgareddau chwarae, ac mae Plantos Bach Gwyllt (‘Wild Tots’) a Gwersylloedd Gwyllt (‘Wild Camps’) wedi profi’n hynod lwyddiannus. Mae Gwersylloedd Gwyllt yn rhaglen deg wythnos yn seiliedig ar ethos Ysgolion Coedwig ac mae ar gael i blant sy’n derbyn cymorth gan wasanaethau statudol. Mae Plantos Bach Gwyllt yn grŵp rhieni a phlant bach awyr agored sy’n rhoi cyfle i archwilio byd natur a meithrin cariad gydol oes at yr awyr agored. Maent hefyd yn rhedeg grŵp Facebook gweithredol, ‘Wild Tots Blaenau Gwent’, sy’n



rhannu syniadau ac yn hyrwyddo chwarae ac ymgysylltu yn yr amgylchedd naturiol.

Mae Gwasanaethau Oedolion yn defnyddio'r lle awyr agored sydd ar gael iddynt i ddarparu gweithgareddau i fynychwyr canolfannau dydd a chanolfannau preswyl, gan gydnabod y cyfle i ddarparu manteision lles i gyfranogwyr. Mae hyn yn cynnwys tyfu blodau a llwyni, a llysiau ar gyfer bwyd, bwydo adar, ac arsylwi bywyd gwyllt. Cynhelir diwrnod casglu sbwriel wythnosol hefyd, mewn cydweithrediad â McDonald's.

### GWAITH YCHWANEGOL A GYFLAWNWYD

Mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phaneli solar wedi'u gosod, ac mae prydau bwyd cymunedol bellach yn cael eu darparu mewn cerbydau trydan.

## 2.5 ADFYWIO A GWASANAETHAU CYMUNEDOL

### AMCAN 1: GWEITHIO TUAG AT NODAU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL), GAN GYNNWYS CYNHYRCHU CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR GYFER SEILWAITH GWYRDD

Bwriedir mabwysiadu'r CDLl newydd yn 2027 ac mae mewnbwn ecolegol wedi'i ddarparu wrth ddatblygu polisïau, er mwyn adlewyrchu polisïau cenedlaethol, gofynion ar gyfer gwella, a fframwaith DECCA.[2] Mae asesiadau dyrannu wedi'u cynnal, gydag adolygiad o Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cyflawnir yn erbyn yr CDLl presennol trwy berthynas waith gadarnhaol â Rheoli Datblygu, gyda phroses ymgynghori weithredol ar waith gyda'r Tîm Amgylchedd Naturiol.

Ni chaiff y gwaith o ymwreiddio argymhellion ecolegol mewn penderfyniadau ei fonitro; fodd bynnag, mae adborth anecdotaidd yn dangos bod argymhellion yn cael eu dilyn yn gyffredinol. Canfuwyd gweyll du yn y pyllau lliniaru ar gyfer safle Rhyd-y-blew, gan ddangos canlyniad cadarnhaol i'r datblygiad.


Y wäell ddu

[2] Fframwaith DECCA ar gyfer gwydnwch ecolegol, yn seiliedig ar amrywiaeth (*Diversity*), maint (*Extent*), cyflwr (*Condition*), cysylltedd (*Connectivity*) a hyblygrwydd (*Adaptability*).

Mae mynediad at ddata rhywogaethau drwy wefan Aderyn wedi'i hwyluso, gyda hyfforddiant wedi'i ddarparu gan y Tîm Amgylchedd Naturiol.

Mae gan yr CDLl cyfredol ganllawiau cynllunio atodol ar gyfer 'materion cadwraeth natur ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fach'; fodd bynnag, nid oes unrhyw ganllawiau cynllunio atodol wedi'u llunio ar gyfer cadwraeth natur na seilwaith gwyrdd yn gyffredinol. Bwriedir cynhyrchu canllawiau cynllunio atodol ar gyfer bioamrywiaeth / seilwaith gwyrdd ar gyfer yr CDLl newydd. Y nod yw i hyn ddilyn mabwysiadu'r CDLl newydd, a bydd cyfeiriad at y canllawiau yn y Cynllun.

## AMCAN 2: CYNNAL A GWELLA BIOAMRYWIAETH A GWELLA GWYDNWCH ECOSYSTEMAU AR DIR SY'N EIDDO I'R CYNGOR, YN ENWEDIG O RAN RHYWOGAETHAU A CHYNEFINOEDD BLAENORIAETH ADRAN 7, MEWN PARTNERIAETH Â GRWPIAU CYMUNEDOL, YMDDIRIEDOLAETH NATUR GWENT AC ERAILL

Cynhaliwyd adolygiad glaswelltir gyda Gwasanaethau Cymdogaeth, gan arwain at gytundeb ar ddull newydd o reoli ymylon a glaswelltir. Lle penderfynir na fydd unrhyw effaith ar drigolion, dim ond toriad blynyddol y mae ymylon tir bellach yn ei gael. Ar ben hynny, mae ardaloedd dynodedig o laswelltir amwynder / mannau gwyrdd bellach yn cael eu rheoli fel ardaloedd bywyd gwyllt, gan dderbyn toriad dôl (gweler y llun o ddôl isod, sy'n derbyn toriad gwair trwy gydweithrediad â ffermwr lleol).

Er nad yw hyn yn cael ei fesur ar hyn o bryd, mae opsiynau ar gyfer mapio a mesur yn cael eu hystyried.



Dôl man gwyrdd

Darparwyd nifer o enghreifftiau o brosiectau, sy’n dangos rheolaeth gadarnhaol o dir sy’n eiddo i’r cyngor a gwelliannau iddo. Mae

cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi gwneud cyfraniad sylweddol at yr amcan hwn, gyda gweithgareddau gwella wedi’u cynnal mewn 48 o wahanol safleoedd rhwng 2023 a 2025, gan gynnwys plannu coed, gosod tyweirch blodau gwyllt, clirio prysgwydd, tynnu rhywogaethau estron goresgynnol, teneuo coed a phrysgoedio.

Roedd gweithgareddau prosiect yn cynnwys:

- Gosodwyd tyweirch blodau gwyllt ar naw cylchfan, yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd o 6,365m$^2$, yn ystod gwanwyn 2024, gydag egino yn amlwg erbyn gwanwyn 2025 (gweler y lluniau isod)
- Cyflwynwyd mesurau gwella bioamrywiaeth mewn pum safle rhandir yn 2023/24, gan gynnwys gosod blychau adar/ystlumod, plannu bylbiau brodorol, a chreu cartrefi i ddraenogod a phryfed peillio
- Gosodwyd blychau tylluanod gwynion yn ystod 2023
- Cyflawnodd y Cyngor statws Caru Gwenyn ym mis Mawrth 2025, gan ddangos ymrwymiad i reoli cynefinoedd yn gynaliadwy ar gyfer pryfed peillio a bywyd gwyllt arall



Creu dolydd blodau gwyllt ar gylchfannau







## Astudiaeth Achos

Cyflwynwyd prosiect perllan gymunedol o dan gynllun grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, gan arwain at greu naw perllan gymunedol newydd. Cyflwynwyd y prosiect mewn cydweithrediad â chymdeithas dai Tai Calon, gyda pherllannau wedi'u creu ar dir y Cyngor a thir y gymdeithas dai. Roedd partneriaid eraill yn cynnwys Sirhowy Hill Woodlands C.I.C., grŵp cymunedol Beaufort Hill Ponds and Woodlands, grŵp cymunedol Friends of Parc Nant-y-waun, grŵp cymunedol Friends of Trevor Rowson, Pentref Tyleri CBC ac Aneurin Leisure Trust

Er mwyn sicrhau rheolaeth barhaus o'r perllannau, cynhaliwyd deg sesiwn hyfforddi dros ddwy flynedd.

At ei gilydd, hyfforddwyd pump o staff y Cyngor a 53 o wirfoddolwyr / aelodau grwpiau cymunedol i gynnal a chadw coed ffrwythau a pherllannau cymunedol..



### Allbynnau'r prosiect:

**64** o goed afalau o amrywogaethau Cymreig wedi'u plannu

**437m** o wrychoedd cymysg brodorol wedi'u plannu

**5,000m$^2$** o hadau blodau gwyllt wedi'u hau

**16** o dyrau pryfed wedi'u gosod


**3** chartref i ddraenogod wedi'u gosod

**50** o goed ffrwythau o amrywogaethau Cymreig wedi'u darparu i'r cyhoedd

## AMCAN 3: SICRHAU BOD Y CYNGOR YN COFLEIDIO DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL AR DRAWS SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU AC YN CYFRANNU AT WELLA SAFONAU ADDYSGOL MEWN PERTHYNAS Â BIOAMRYWIAETH

Mae cyflawni'r ddyletswydd adran 6 yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod Cymru gydnerth Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae nodau'r Ddeddf hon (gan gynnwys nod Cymru gydnerth) a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi'u hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Integredig, a gynhelir fel rhan o wneud penderfyniadau strategol.

Mae cynnydd ar y gweill i ddatblygu modiwl hyfforddi ar y ddyletswydd adran 6 a'r argyfwng natur a hinsawdd, a'u perthnasedd i wahanol adrannau. Ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd, caiff ei gyflwyno i holl aelodau a staff y Cyngor pan fydd wedi'i gwblhau.




Darperir cymorth a chyngor i adrannau ar draws y Cyngor ar fesurau i fodloni gofynion y ddyletswydd adran 6 ac, yn y pen draw, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae sefydlu rhwydwaith yr Hyrwyddwyr Amgylchedd yn nodedig iawn, gyda swyddogion enwebedig yn darparu cyswllt gweithredol rhwng y Tîm Amgylchedd Naturiol a'r timau canlynol:

- Llywodraethiant a Phartneriaethau
- Gwasanaethau Masnachol a Datblygu Sefydliadol
- Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant)
- Adfywio a Gwasanaethau Masnachol (Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig)
- Addysg

Yn ogystal, darperir tystiolaeth bod y Tîm Amgylchedd Naturiol yn darparu cyngor ecolegol i adrannau eraill, gan gynnwys y Gwasanaethau Cynllunio. Mewn rhai meysydd gwaith, gan gynnwys ystadau, draenio ac adnoddau, mae presenoldeb prosesau sefydledig i sicrhau cydymffurfedd â'r ddyletswydd adran 6 yn llai clir.

## AMCAN 4: CEFNOGI'R BARTNERIAETH NATUR LEOL YN EI GWAITH FEL PARTNERIAETH STRATEGOL O SEFYDLIADAU AC UNIGOLION SY'N CYFARWYDDO AC YN CYFLAWNI CADWRAETH NATUR YM MWRDEISTREFI SIROL TORFAEN A BLAENAU GWENT, AR RADDFA TIRWEDDAU LLEOL AC YN EHANGACH

Ffurfiwyd Partneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen yn 2017, yn dilyn uno partneriaethau bioamrywiaeth blaenorol a oedd yn gweithredu ledled y sir. Cyngor Torfaen sy'n cydlynu, gyda chymorth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur lleol, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod 2023 i 2030. Cyfrannodd y Bartneriaeth Natur Leol at ei ddatblygiad, trwy gymryd rhan mewn gweithdai cymunedol a darparu adborth ysgrifenedig.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur wedi cael ei fabwysiadu ers hynny gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, gan roi cyfle i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i aelodau etholedig fel rhan o broses gymeradwyo pwyllgorau.

Cefnogir gwaith y Bartneriaeth Natur Leol drwy gynlluniau ariannu Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, sydd wedi rhoi hwb sylweddol i'r gallu a'r adnoddau i gyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Amlinellir gweithgareddau prosiectau yn erbyn Amcan 2 (cynnal a gwella bioamrywiaeth ar dir sy'n eiddo i'r cyngor), a gyflawnwyd drwy gefnogaeth a chyfranogiad partneriaid y Bartneriaeth Natur Leol a grwpiau ac unigolion, gan gynnwys 24 o ysgolion a 21 o grwpiau a sefydliadau cymunedol. Cynhaliwyd 64 o ddigwyddiadau gwirfoddoli, gan ddarparu 205 o oriau ymgysylltu posibl i wirfoddolwyr.

Ar lefel ranbarthol, roedd y Cyngor yn rhan o Gwent Fwyaf Gydnerth, prosiect tair blynedd o hyd a ariannwyd gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru. Dangosodd y rhaglen ddull ar raddfa'r dirwedd o greu a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn ledled De-ddwyrain Cymru.

Cynhyrchwyd adroddiad o'r enw 'Sefyllfa Natur Gwent Fwyaf', gan ddarparu asesiad o statws 100 o rywogaethau a grwpiau rhywogaethau ledled Gwent. Yn dilyn yr adroddiad, cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent Fwyaf, gan weithredu fel canllaw strategol tuag at adfer natur ar raddfa ranbarthol ledled Gwent a llywio datblygiad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur lleol.

## GWAITH YCHWANEGOL A GYFLAWNWYD

Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus mewn cais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur ar gyfer prosiect i ddatblygu system fapio a fydd yn creu cynlluniau ar gyfer rhwydweithiau ecolegol gwydn. Bydd y cynlluniau'n llywio sut a ble i wella cynefinoedd a chymryd camau adfer natur ac yn amlinellu pam mae lles amgylcheddol yn bwysig. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod cyflawni nesaf y Cynllun.

## 2.6 ADDYSG

### AMCAN 1: YMGYSYLLTU AG YSGOLION A MYFYRWYR TRWY SESIYNAU ADDYSGOL AC ECO-GYNGHORAU AC YMWREIDDIO CYNALIADWYEDD

### ASTUDIAETH ACHOS: CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH YSGOLION

Mae ysgolion yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithgareddau amgylcheddol drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Tîm Amgylchedd Naturiol. Ar hyn o bryd, mae 24 o ysgolion wedi cofrestru ar gyfer y cytundeb lefel gwasanaeth, gan godi o 17 yn y blynyddoedd blaenorol.

Cynigir amrywiaeth o weithgareddau i'r ysgolion sy'n gysylltiedig â thymhorau a digwyddiadau o fewn calendr byd natur. Mae enghreifftiau'n cynnwys Coed Campus (ar gyfer Wythnos Genedlaethol y Coed), Hadau Hyfryd (yn ystod y tymor casglu hadau), Adar Ardderchog (tua amser Gwylio Adar yr Ardd / Ysgolion ac Wythnos Genedlaethol y Blychau Nythu), a gweithgareddau sy'n ymwneud â draenogod a gaeafgysgu a phryfed a pheillio, yn ogystal â chip ar infertebratau dyfrol wrth ddipio mewn pwll.

Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd i filoedd o blant ysgol gymryd rhan mewn gweithgareddau ym myd natur, gyda'r ffigurau (bras) canlynol wedi'u darparu:

- 2022: 77 o weithdai/gweithgareddau wedi'u cynnal, gyda 3,700+ o ddisgyblion ar draws 21 o ysgolion
- 2023: 56 o weithdai/gweithgareddau wedi'u cynnal, gyda 3,000 o ddisgyblion ar draws 23 o ysgolion
- 2024: 47 o weithdai/gweithgareddau wedi'u cynnal, gyda 2,100 o ddisgyblion ar draws 18 o ysgolion


Disgyblion Blwyddyn 5 yn cymryd rhan mewn bioflits yn eu hysgol grounds


Grŵp natur yn gwneud porthwyr adar

Mae cymryd rhan yn y cytundeb lefel gwasanaeth yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i gyfrannu at raglenni a mentrau monitro cenedlaethol, gyda nifer o ysgolion yn cymryd rhan ym menter Gwylio Adar Ysgolion a menter Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus. Cymhwysodd tair ysgol fel Campysau Cyfeillgar i Ddraenogod; cyrhaeddodd Ysgol Coed-y-garn y safon aur ac maent yn aros i'r safon hon gael ei hadnewyddu ar hyn o bryd.

**Tysteb**

Fyddwn i byth wedi ystyried defnyddio'r pwll heb i Becky ei awgrymu ac ni fyddwn i byth wedi cael yr hyder i gynnal sesiynau dipio pwll fy hun heb i Becky ddarparu'r cymorth a roddodd hi. Rwy'n caru'r ffaith bod gen i rywun arall nawr y gallaf ofyn iddi am help neu gyngor ar bopeth sy'n ymwneud â byd natur! **Ms Bradnock, Ysgol Gymraeg Bro Helyg**

Yn ogystal, cofrestrodd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr (cyfnod uwchradd) yn annibynnol i fod yn ysgol yr eryr môr gydag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Bywyd Gwyllt Durrell, gan weithredu ar sail manylion a rannwyd am gynhadledd bywyd gwyllt i bobl ifanc.

**Tysteb**

Mae gwaith Becky gyda'r disgyblion wedi eu galluogi i adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bresennol o'r amgylchedd awyr agored ac i ddatblygu eu diddordebau a'u sgiliau eu hunain wrth ofalu am ein hamgylchedd naturiol a'i gynnal ar gyfer y dyfodol. Mae'r ffordd y mae Becky wedi cefnogi'r ysgol yn dangos y brwdfrydedd ac ymrwymiad parhaus sydd ganddi i ysbrydoli ein disgyblion ac, yn wir, ein staff. **Mrs Targett – Arweinydd Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Gymuned, Ysgol Blaen-y-cwm**

Mae'r ymwneud parhaus â'r cytundeb lefel gwasanaeth wedi cynyddu hyder a gallu ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd ymgysylltu ychwanegol a ddarperir. Er enghraifft:

- Mae Ysgol Joseff Sant wedi ffurfio cysylltiadau cryf â grŵp gwirfoddolwyr Coetiroedd Bryn Sirhywi, gan gymryd rhan mewn ymweliadau rheolaidd yn annibynnol ar y cytundeb lefel gwasanaeth
- Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi mynd ar ymweliadau annibynnol i'w Gwarchodfa Natur Leol gyfagos
- Mae Ysgol Blaen-y-cwm ac Ysgol Gymraeg Bro Helyg bellach yn darparu gweithdai dipio mewn pyllau yn hyderus i ddisgyblion ar draws yr ysgol o ganlyniad i staff arsylwi a chymryd rhan mewn sesiynau dan arweiniad y cytundeb lefel gwasanaeth

## AMCAN 2: Y TÎM AMGYLCHEDD NATURIOL (ARWEINWYR DEDDF YR AMGYLCHEDD) I FYNYCHU CYFARFOD O BENAETHIAID YSGOLION YN FLYNYDDOL

Mae presenoldeb yng nghyfarfod y penaethiaid yn parhau yn flynyddol, gan roi cyfle i'r Swyddog Bioamrywiaeth arddangos gweithgareddau a gyflwynir fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth, darparu enghreifftiau o weithgareddau ym myd natur y gellir eu cynnal gyda disgyblion, a chynnig cyngor ar gyllid a chymorth ychwanegol.

## AMCAN 3: ANNOG RHEOLAETH SY'N GYFEILLGAR I NATUR AR DIR YSGOLION

Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth wedi rhoi cyfle i gefnogi rheolaeth sy'n gyfeillgar i natur ar dir ysgolion.



Gofynnwyd i bob ysgol a oedd yn rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth yn 2023 am gyfundrefnau rheoli glaswelltir a chadarnhaodd 14 ysgol eu bod wedi dynodi ardaloedd a oedd yn cael eu rheoli fel ardaloedd blodau gwyllt. Mae Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr (cyfnod cynradd) wedi gwneud newid sylweddol i sut mae'n rheoli glaswelltir, gyda phob ardal (ac eithrio'r cae chwaraeon) bellach wedi'u gadael ar gyfer bioamrywiaeth ac i blant eu harchwilio.

Mae'r llun i'r dde yn rhoi enghraifft o ardal blodau gwyllt a gynhelir gan Ysgol Gynradd Coed-y-garn.

Mae mesurau natur a chynaliadwyedd hefyd yn cael eu hymgorffori mewn dyluniadau ysgolion newydd, gydag Ysgol Gymraeg Tredegar, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, yn cyrraedd targedau sero net, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

## AMCAN 4: DATBLYGU POLISI BIOAMRYWIAETH I YSGOLION A CHYMORTH GYDAG INTEGREIDDIO

Cafodd polisi bioamrywiaeth a thiroedd ysgolion ei ddrafftio a'i rannu â phob ysgol ym Mlaenau Gwent yn 2023. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd bioamrywiaeth, ei chysylltiadau â llesiant, a chyfleoedd i wella tiroedd ysgolion ar gyfer bioamrywiaeth.

## AMCAN 5: CYSYLLTU POBL IFANC Â'R AMGYLCHEDD TRWY'R GWASANAETH IEUENCTID

Adroddir bod prosiectau amgylcheddol yn rhan o waith ieuenctid a gyflwynir ar draws y fwrdeistref sirol; fodd bynnag, nid oes rhagor o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd.

## GWAITH YCHWANEGOL A GYFLAWNWYD

Mae pob ysgol wedi cael ei hasesu i weld a yw'n addas ar gyfer paneli solar, ac mae rhaglen gosod paneli solar ar y gweill, fel rhan o'r ymdrechion i gyrraedd targedau datgarboneiddio.

## 3. CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR CYMRU

Mae'r adran flaenorol yn manylu ar sut mae cynlluniau gweithredu gwasanaethau unigol yn cyfrannu at gyflawni'r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ar gyfer 2022 i 2025. Mae'r rhain, yn eu tro, yn cyfrannu at yr amcanion a nodir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, fel y nodir isod.

### AMCAN 1: YMGYSYLLTU A CHEFNOGI CYFRANOGIAD A DEALLTWRIAETH I YMWREIDDIO BIOAMRYWIAETH DRWY'R BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU AR BOB LEFEL

Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng natur a hinsawdd, ac mae adfer natur yn flaenoriaeth gorfforaethol o fewn y cynllun corfforaethol. Mae'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2022-27 yn cynnwys blaenoriaeth o 'ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig'.

Mae cysylltiadau da rhwng yr agendâu natur a hinsawdd, gydag ymdrechion yn cael eu gwneud i alinio'r ddarpariaeth â'r Strategaeth Ddatgarboneiddio a'r cymorth a ddarperir gan y Gweithgor Hinsawdd.

Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth fewnol wedi'u darparu gan y Tîm Amgylchedd Naturiol i gynyddu dealltwriaeth o gyfrifoldebau mewn perthynas â gwaith sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys hyfforddi aelodau, mynychu cyfarfodydd uwch-reolwyr a thrawsadrannol, a chynnwys gwybodaeth am fioamrywiaeth mewn bwletinau mewnol. Bydd cwblhau a mabwysiadu'r modiwl hyfforddiant bioamrywiaeth yn gwneud cyfraniad pellach i'r amcan hwn yn y dyfodol.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys gofyniad i ystyried nod Cymru gydnerth a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, gan adlewyrchu'r angen i ystyried diogelu a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn rhoi cyfle i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau yn adroddiadau pwyllgorau, er nad yw cadernid y system wedi'i brofi fel rhan o'r adolygiad hwn.

### AMCAN 2: DIOGELU RHYWOGAETHAU A CHYNEFINOEDD O'R PWYS MWYAF A GWELLA RHEOLAETH AR EU CYFER

Mae prosiectau wedi'u cyflawni ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd, ar dir sy'n eiddo i'r cyngor a hefyd drwy gydweithio, gyda thystiolaeth wedi'i darparu o ymgysylltu, gweithio mewn partneriaeth a chyfranogiad gwirfoddolwyr drwy gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Mae polisi ar bryfed peillio a dyfarniad llwyddiannus statws Caru Gwenyn ill dau yn darparu tystiolaeth gref o fabwysiadu arferion rheoli cynaliadwy er budd infertebratau, gyda manteision ehangach i fioamrywiaeth yn gyffredinol.




Disgwylir i’r adolygiad glaswelltir wneud cyfraniad cadarnhaol at waith rheoli cynefin a wneir ar dir sy’n eiddo i’r cyngor. Er nad yw hyn yn cael ei fesur ar hyn o bryd, mae uchelgais i fesur ardaloedd sy’n cael eu rheoli ar gyfer bioamrywiaeth, a fydd yn darparu sylfaen dystiolaeth gryfach ar gyfer cyfrannu at yr amcan hwn.

Mae enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio trawsadrannol i gyflawni rheolaeth er budd bioamrywiaeth, er nad yw hyn yn gyson ar draws pob adran.

Cynhelir rheolaeth barhaus ar Warchodfeydd Natur Lleol, gydag 12 o Warchodfeydd Natur Lleol wedi’u rhestru ar dudalen we cefn gwlad y Cyngor (gweler y llun uchod: Gwarchodfa Natur Leol Six Bells).

## AMCAN 3: CYNYDDU GWYDNWCH EIN HAMGYLCHEDD NATURIOL DRWY ADFER CYNEFINOEDD SYDD WEDI EU DIRADDIO A CHREU CYNEFIN

Mae gweithgareddau a rheolaeth prosiect sydd eisoes wedi’u manylu’n cynnwys elfennau o adfer cynefinoedd a chreu cynefinoedd, gyda gwaith y prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cynnwys creu dolydd blodau gwyllt, plannu coed / creu perllannau, a gweithgareddau gwella eraill. Rhagwelir ymhellach y bydd gwaith rheoli a wneir o ganlyniad i’r adolygiad glaswelltir yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr amcan hwn.

Darparodd prosiect Gwent Fwyaf Gydnerth fframwaith pwysig i lywio camau gweithredu ar draws y dirwedd ar gyfer rhwydweithiau ecolegol gwydn gwell, a disgwylir i brosiect Rhwydweithiau Natur adeiladu ar hyn.

## AMCAN 4: MYND I’R AFAEL Â’R PWYSAU ALLWEDDOL AR RYWOGAETHAU A CHYNEFINOEDD

Mae cyfraniadau tuag at yr amcan hwn yn cynnwys camau cadarnhaol i leihau papur trwy fabwysiadu ffeilio digidol yn fwy a lleihau defnydd ynni a theithio trwy arferion gweithio hyblyg.

Mae camau datgarboneiddio i gyrraedd targed 2030 ar y gweill, gyda phaneli solar wedi'u gosod mewn llawer o ysgolion ac adeiladau'r Cyngor, y newid i gerbydau trydan yn amlwg, a chefnogaeth i fentrau perthnasol eraill fel y cynllun beicio i'r gwaith.

Cynhelir rhaglen trin rhywogaethau estron goresgynnol bob blwyddyn. Gwneir ymdrechion i leihau'r defnydd o blaladdwyr, ac mae Gwasanaethau Cymdogaeth wedi mynychu gweithdy Llywodraeth Cymru ar fesurau amgen.

## AMCAN 5: GWELLA EIN TYSTIOLAETH, EIN DEALLTWRIAETH A'N GWAITH MONITRO

Mae adroddiad Sefyllfa Natur Gwent Fwyaf, Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent Fwyaf, a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Blaenau Gwent a Thorfaen i gyd yn darparu fframwaith pwysig i lywio camau gweithredu.

Mae cytundeb lefel gwasanaeth ar waith gyda Chanolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, sy'n sicrhau mynediad at ddata, ac mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i'r Adran Gynllunio yn Aderyn.

Mae tystiolaeth bod rhywfaint o waith arolygu wedi'i wneud mewn perthynas â safleoedd ymgeisiol a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (gweler y llun isod) ar gyfer yr CDLl newydd, a monitro gylfinirod; fodd bynnag, mae tystiolaeth o waith arolygu neu fonitro ehangach i wella tystiolaeth neu ddealltwriaeth, neu effaith cyflawni prosiectau, yn fwy cyfyngedig. Yn benodol, byddai monitro maint y tir sy'n eiddo i'r Cyngor sy'n cael ei reoli'n gadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth yn gwneud cyfraniad cryfach at yr amcan hwn.

Cynhaliwyd archwiliad yn 2019 ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor o ran 'gwella mynediad at fannau agored, a'u hansawdd, er budd ein cymunedau, busnesau ac ymwelwyr' gan Swyddfa Archwilio Cymru. Nodwyd y canfyddiadau ar ffurf adroddiad Archwilio Cymru, gan nodi bod y Cyngor wedi cynllunio'r cam hwn i atal dirywiad ecosystemau a hyrwyddo lles pobl leol, ond bod angen mwy o ddata i fesur a monitro cynnydd. Yn dilyn yr argymhelliad, cytunodd y Cyngor ar gamau i 'gynyddu ardaloedd o dir a reolir (coetiroedd / glaswelltiroedd / cynefinoedd)'. Fodd bynnag, heb waith monitro priodol, nid yw'n bosibl asesu a yw hyn wedi'i gyflawni.

Cynhelir gweithgareddau i wella dealltwriaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth trwy gyfrwng hyfforddiant i aelodau a'r modiwl hyfforddiant bioamrywiaeth sy'n dod i'r amlwg, ac, yn benodol, yn yr amgylchedd mewn ysgolion, gyda'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer ysgolion yn gwneud cyfraniad effeithiol at yr amcan hwn.

## AMCAN 6: RHOI FFRAMWAITH LLYWODRAETHIANT A CHYMORTH AR GYFER CYFLAWNI AR WAITH

ae cynnwys amcanion y cynllun bioamrywiaeth yn systemau adrodd y cynllun corfforaethol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr amcan hwn, wedi'i gefnogi gan enwebu Hyrwyddwyr Amgylchedd, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd yr Hyrwyddwyr Amgylchedd. Mae rhai bylchau yma, gan gynnwys y rhai a enwebwyd yn wreiddiol ond nad ydynt yn weithredol, a'r rhai nad ydynt eto wedi ymgysylltu â'r broses. Ar ben hynny, er bod proses sefydledig ar waith ar gyfer monitro ac adrodd yn erbyn y ddyletswydd adran 6, roedd lefel yr ymgysylltiad a'r manylion a ddarparwyd yn anghyson.

Mae enwebu aelodau etholedig fel yr Hyrwyddwr Lliniaru Newid Hinsawdd ac fel deiliaid Portffolio'r Amgylchedd Naturiol yn rhoi cyfle i gael mwy o gefnogaeth i waith er lles bioamrywiaeth, gyda chyfweliad â deiliad portffolio blaenorol yn dangos gwybodaeth a chefnogaeth dda mewn perthynas â mentrau bioamrywiaeth.

Mae'n amlwg bod ecolegydd y Cyngor wedi manteisio ar gyfleoedd i roi mewnbwn ecolegol mewn cyfarfodydd strategol ac yng nghyfarfodydd uwch-reolwyr, ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm/adrannol mewn meysydd gwasanaeth eraill. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y rôl hon yn cael ei chyflawni'n bennaf gan un swyddog, sy'n gyfrifol am nifer o swyddogaethau o fewn y tîm, sy'n cyflwyno elfen o risg wrth gyflawni dyletswyddau'r Cyngor mewn perthynas â'r ddyletswydd adran 6.

Mae cymorth i'r hyn a gyflawnir gan y Bartneriaeth Natur Leol yn dod trwy drefniant a rennir gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, sy'n cyflogi Cydgysylltydd y Bartneriaeth Natur Leol. Mae gwaith lleol, a gyflawnir trwy weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol ac aelodau'r cyhoedd, yn cael ei wneud gan y Tîm Amgylchedd Naturiol, a gefnogir ar hyn o bryd gan y grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.



Cap cwyr pinc wedi'i nodi ar Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur

## 4. ARGYMHELLION A’R CAMAU NESAF

Mae’r adolygiad wedi nodi llawer o uchafbwyntiau ac arferion gwaith cadarnhaol sy’n dangos cydymffurfedd â’r ddyletswydd adran 6 a chyfraniad cadarnhaol tuag at ymdrechion i fynd i’r afael â’r argyfwng natur. Ar yr un pryd, mae rhai sylwadau wedi’u darparu yn yr adroddiad hwn a ddylai lywio datblygiad y Cynllun wrth ei ddiweddaru.

Mae fframwaith da ar gyfer cyflawni drwy rwydwaith yr Hyrwyddwyr Amgylchedd ac ymwreiddio amcanion y ddyletswydd adran 6 yn y cynllun busnes. Fel yr amlygwyd, mae rhai bylchau yn y gwaith adrodd, yr ymgysylltu a’r manylion a ddarperir drwy’r broses hon, y bydd angen eu hystyried wrth ddatblygu amcanion ar gyfer y Cynllun wedi’i ddiweddaru. Ar yr un pryd, byddai ffocws cynyddol ar fabwysiadu amcanion (neu gamau gweithredu) sy’n fesuradwy yn cefnogi craffu ar weithredu’r Cynllun.

Yn ystod y cyfnod adolygu, deellir bod ailstrwythuro wedi digwydd yn ddiweddar iawn, a allai gyflwyno cyfle (ac angen) i adolygu strwythur cynlluniau gweithredu’r meysydd gwasanaeth a’r Hyrwyddwyr Amgylchedd cysylltiedig, gan ystyried cynnwys staff ym meysydd cynllunio ac ystadau.

Mae’r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer ysgolion, a gweithgareddau ym myd natur sy’n cael eu darparu gan y Gwasanaethau Plant, yn darparu cyfleoedd rhagorol i bobl ifanc ymgysylltu â’r amgylchedd naturiol, gan ddarparu manteision ar gyfer lles yn ogystal â meithrin gwerthfawrogiad o natur a fydd, gobeithio, yn trosglwyddo i gamau adfer natur yn y dyfodol.

Mae ffrwd ariannu Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi rhoi hwb croesawgar i adnoddau a’r gallu i gyflawni a hwyluso prosiectau ledled Blaenau Gwent. Mae’r gwaith a gyflawnir yn cefnogi gwydnwch ecosystemau, yn meithrin cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, ac yn darparu manteision i gymunedau ac unigolion.

Mae mesurau cadarnhaol wedi’u rhoi ar waith i feithrin gwydnwch ecosystemau drwy reoli tir sydd dan berchnogaeth neu reolaeth y Cyngor, a byddai’r rhain yn elwa o ddatblygu system i fesur a monitro effaith y camau hyn.

Bydd canfyddiadau’r adroddiad hwn yn llywio datblygiad Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau diwygiedig Blaenau Gwent. Cynhelir ymgysylltiad pellach â swyddogion ac adrannau allweddol i gytuno ar gynnwys amcanion i’w gweithredu rhwng 2025 a 2028.